# DEWIS
# Fy NghHTh

# Ymgeiswyr am Ardal Heddlu Gogledd Cymru

Mae etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal ar 2 Mai yng Nghymru a Lloegr.

Darganfyddwch pwy yw eich ymgeiswyr lleol a sut i bleidleisio.

# Cynnwys


Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu 02

Andy Dunbobbin
Labour and Co-operative Party/Llafur a`r Blaid Gydweithredol 04

Ann Griffith
Plaid Cymru – The Party of Wales 06

Brian Jones
Welsh Conservative Party Candidate/
Ymgeisydd Plaid Geidwadol Cymru 08

Richard Marbrow
Welsh Liberal Democrats/Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 10

Datganiad gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru 12

# Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu

**Ar 2 Mai, byddwch yn gallu pleidleisio dros eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Rôl y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw bod yn llais y bobl a dal yr heddlu i gyfrif.**

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol i ddwyn eich heddlu i gyfrif am ddarparu'r math o blismona yr hoffech chi ei weld. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd yn eu hardal heddlu ac yn anelu at leihau trosedd a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dod â llais cyhoeddus i blismona ac maent yn gwneud hyn drwy:

- Ymgysylltu â'r cyhoedd a dioddefwyr troseddau i helpu i osod cynlluniau plismona a throseddu;
- Sicrhau bod cyllideb yr heddlu yn cael ei gwario lle bo'r pwys mwyaf; a
- Penodi'r prif gwnstabl, ei ddwyn i gyfrif am gyflawni ei amcanion, a'i ddiswyddo os oes angen.

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn "rhedeg" yr heddlu. Mae Prif Gwnstabliaid yn parhau i fod yn gyfrifol am weithrediadau'r heddlu o ddydd i ddydd, ond maent yn atebol i'r cyhoedd drwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mewn rhai ardaloedd heddlu, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn gyfrifol am y Gwasanaethau Tân ac Achub, a chânt eu hadnabod fel Comisiynwyr Heddlu, Tân a Throseddu. At hynny, mewn rhai ardaloedd, nid oes etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu na

Chomisiynydd Heddlu, Tân a Throseddu – yn lle hynny, bydd etholiad ar gyfer maer a fydd yn cyflawni swyddi'r ddau gomisiynydd hyn neu weithredu pwerau cyfatebol.

Bydd 37 o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol ledled Cymru a Lloegr, a bydd pedwar ohonynt yn Gomisiynwyr Heddlu, Tân a Throseddu – ceir yr olaf yn Cumbria, Essex, Swydd Stafford, a Swydd Northampton.

## Cydweithio ag eraill

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn gweithio gyda'ch cyngor a sefydliadau eraill i hyrwyddo a galluogi gweithio cydgysylltiedig ar ddiogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Fel unigolion a etholir yn uniongyrchol, maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio a chraffu effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus. Wrth wneud hynny, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn rhoi sylw i fygythiadau trawsffiniol ar lefel genedlaethol, ac yn sicrhau bod ymateb plismona effeithiol ar waith.

## Cynrychioli'r gymuned gyfan

Mae'n ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu dyngu llw o ddidueddrwydd pan gânt eu hethol i'w swydd. Mae'r llw wedi'i gynllunio fel y gallant nodi'n gyhoeddus eu hymrwymiad i'r canlynol: gwasanaethu'r holl bobl yn eu hardal heddlu; gweithredu gydag uniondeb a diwydrwydd; rhoi llais i'r cyhoedd; gweithredu'n dryloyw fel y gellir eu dwyn i gyfrif yn effeithiol; a pheidio ag ymyrryd ag annibyniaeth weithredol swyddogion yr heddlu.

## Dewch o hyd i'ch ymgeisydd

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad yn ardal Heddlu Gogledd Cymru. Gallwch hefyd archebu copi o'r llyfryn hwn yn y fformatau canlynol: print bras, Braille a sain.

I osod eich archeb, ewch i **www.dewisfynghhth.org.uk** neu ffoniwch **0300 1311323**.

## Ynglŷn â'ch pleidlais

Mae angen i chi fod wedi cofrestru i allu pleidleisio.

Os nad ydych wedi cofrestru, ewch i **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio** neu cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Os ydych wedi cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio, gallwch naill ai bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, drwy'r post, neu drwy ddirprwy (gan ganiatáu i rywun rydych yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eich rhan).

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hethol gan ddefnyddio system bleidleisio'r cyntaf i'r felin, lle mae'r ymgeisydd gyda'r mwyaf o bleidleisiau yn ennill. Bydd pleidleiswyr yn pleidleisio drwy ddewis un ymgeisydd yn unig ar y papur pleidleisio. Dyma'r un system ag a ddefnyddir ar gyfer etholiadau Senedd y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am eich pleidlais ewch i: **https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**.

# Andy Dunbobbin

Labour and Co-operative Party/
Llafur a`r Blaid Gydweithredol

**Datganiad etholiad:**

Mae'n anrhydedd i mi wasanaethu fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Gogledd Cymru, gyda'm ffocws yn gadarn ar yr hyn sy'n bwysig i chi.

Mae'r tair blynedd diwethaf wedi mynd yn gyflym, gyda phlismona – yn eithaf cywir – yn wynebu craffu aruthrol.

Fodd bynnag, er gwaethaf heriau cenedlaethol a lleol, credaf fy mod wedi arwain yn effeithiol a chynrychioli ein cymunedau yn dda. Wrth i mi edrych eto am eich cefnogaeth yn yr etholiad hwn, byddaf yn parhau i'ch rhoi chi, eich teuluoedd a'n cymunedau wrth wraidd fy ymdrechion.

Plismona cymdogaeth yw – a bydd bob amser – fy mhrif flaenoriaeth. Gyda fy ffocws yn gadarn ar atal trosedd

Yng Ngogledd Cymru, mae troseddu cyffredinol i lawr 13.5% ac mae perfformiad ar i fyny. Yn ôl arolwg diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol, eich heddlu yw'r gorau yng Nghymru a Lloegr o ran hyder y cyhoedd. Yr ail ffigur isaf yn genedlaethol ar gyfer cyfraddau troseddau a gofnodwyd fesul 1000 o'r boblogaeth.

Ac nid yw hyn yn digwydd ar ei ben ei hun. Gyda Llafur Cymru, mae gennym drefniadau cryf, effeithiol a chydweithredol ar waith. Mae Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched yn enghreifftiau gwych sy'n cefnogi ein cymunedau'n dda.

Mae fy null gwasanaeth heddlu cymunedol (COPS) wedi bod yn llwyddiannus, gan ddatblygu fy ngweledigaeth yn bedair piler strategol:

- PRESENOLDEB PLISMONA CYMDOGAETH LEOL.
- CEFNOGI DIODDEFWYR, CYMUNEDAU A BUSNESAU.
- SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL DEG AC EFFEITHIOL.
- COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU GWELADWY A CHYFRIFOL.

Mae fy ngwybodaeth a'm profiad wedi arwain at ddal cyfrifoldebau fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru ac arweinydd CHTh ar gyfer sawl menter dechnoleg.

Byddwn wrth fy modd i gael fy'n ailethol ac i barhau i wneud ein cartref y lle mwyaf diogel i fyw, weithio ac ymweld.

Mae'r datganiad hwn wedi paratoi gan Michelle Perfect,
33 Henry Taylor Street, Flint CH6 5PP.

# Ann Griffith

Plaid Cymru – The Party of Wales

Plaid Cymru

Party of Wales



**Datganiad etholiad:**

**LLAIS CRYF DROS GYFIAWNDER A'R DIODDEFWYR**

Fy enw i yw Ann Griffith a fi yw ymgeisydd Plaid Cymru ar gyfer rôl Gogledd Cymru Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Ges i fy mhenodi gan Arfon Jones fel ei Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, ac roeddwn yn gyfrifol am Blant a Phobl Ifanc, Caethwasiaeth Fodern, Cam-drin Domestig, Merched a chyfiawnder, Safonau proffesiynol a Gwrth-lygredd.

Rwyf wedi gweithio ers 40 mlynedd fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol/rheoli gwaith cymdeithasol ar draws gogledd Cymru yn y sector gyhoeddus a gwirfoddol gyda phob math o grwpiau bregus. Rwyf wedi gweithio ochr yn ochr â'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ehangach i gefnogi dioddefwyr troseddau.

Mae dioddefwyr trosedd yn dweud wrtha'i eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi ac yn cael eu siomi. Mae fy mhrofiad bywyd, gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd yn golygu fy mod yn deall ac yn ymrwymo i wella'r system cyfiawnder troseddol i bawb.

Os caf fy ethol byddaf yn canolbwyntio ar atal troseddu ac ail-droseddu drwy gynyddu amlygrwydd a hygyrchedd yr heddlu, ymyrraeth gynnar ac ataliaeth a defnyddio mentrau datrys problemau arloesol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Byddaf yn craffu'n fanwl ar ymateb yr heddlu i drais, rheolaeth drwy orfodaeth a stelcian tuag at fenywod a merched, troseddu a chamymddwyn rhywiol yn erbyn plant ac oedolion bregus a throseddau difrifol gangiau.

Ar hyn o bryd rydw i'n ymgynghorydd amddiffyn plant annibynnol ac yn hyfforddwr dysgu arweinyddiaeth i uwch reolwyr gofal cymdeithasol.

Mae fy mhrofiad o arwain a hanes o annibyniaeth yn fy ngalluogi i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, gwneud Heddlu Gogledd Cymru yn fwy effeithiol ac effeithlon a sicrhau bod ein cymunedau gwledig a threfol yn ddiogel i ffynnu.

Mae'r datganiad yma wedi ei pharatoi ar ran yr ymgeisydd gan ei hasiant, Marc Jones, o 7 Stryt Gerallt, Wrecsam, LL11 1EH.

## Manylion Cyswllt

E-bost: **anngriffithplaidcymru@gmail.com**
Twitter: **@AnnGriffPlaid**
Facebook: **https://www.facebook.com/AnnGriffithPlaidCymru**

# Brian Jones

Welsh Conservative Party Candidate/
Ymgeisydd Plaid Geidwadol Cymru



Conservatives
Ceidwadwyr

**Datganiad etholiad:**

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwy'n addo mynd i'r afael ag anghenion amrywiol Gogledd Cymru drwy flaenoriaethu'r canlynol:

Sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn cael cyn lleied o bwysau â phosibl ar eu hadnoddau a'u costau wrth ymwneud â'r polisi 20mya cyffredinol Llywodraeth Cymru ond yn parhau i gydweithio ag asiantaethau partner a'r sector gwirfoddol ar gyfer ffyrdd mwy diogel.

Cefnogi ein ffermwyr gan frwydro yn erbyn troseddau cefn gwlad megis tipio anghyfreithlon, dwyn da byw ac offer, ynghyd â chynnig fy nghefnogaeth yn erbyn gweithredoedd niweidiol Llywodraeth Cymru tuag at y gymuned wledig.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol trwy ddefnyddio dull synnwyr cyffredin i adfer parch tuag at Heddlu Gogledd Cymru trwy sicrhau bod preswylwyr yn gallu gweld, a chael mynediad at Swyddogion Heddlu yn eu Cymunedau Lleol, Ysgolion, a mannau cyhoeddus eraill yn rhwyddach nag ar hyn o bryd. Bydd hyn yn lleihau'r lefelau annerbyniol o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr ydym yn eu profi ar hyn o bryd.

Cam-drin Domestig a thrais a fydd yn cynnwys ymddygiad gorfodol. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

Troseddau Seiber Ar-lein h.y.. troseddau cam-drin/casineb ynghyd â thwyll a sgamiau drwy sicrhau bod y dechnoleg ddiweddaraf ar gael.

Grwpiau troseddau trefnedig mewn perthynas â llinellau cyffuriau, camfanteisio'n rhywiol ar blant trwy ddull cydgysylltiedig â heddluoedd eraill a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

Polisi Lladrata o Siopa ffurfiol wedi'i gydlynu rhwng yr Heddlu a'r Prif Fanwerthwyr.

Mae pob un ohonoch yn bwysig i mi ac er mwyn cydnabod hyn byddaf yn cynnal cymorthfeydd rheolaidd ledled y Rhanbarth i sicrhau fy mod yn gweithio AR EICH RHAN ac yn bwysicach GYDA chi i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i'n holl breswylwyr ac ymwelwyr

Paratowyd yr anerchiad etholiadol hwn gan Bernard Gentry, CCHQ Gogledd Cymru, Llawr 1af Commodore House, Abergele, LL22 8LJ.

## Manylion Cyswllt


E-bost: **brian.jones@northwalesconservatives.org.uk**
Facebook: **fb.com/BrianJonesForNorthWalesPCC**

# Richard Marbrow

Welsh Liberal Democrats/
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Welsh Lib Dems
Dem Rhydd Cymru

**Datganiad etholiad:**

Dylai'r blaenoriaethau plismona yn y gogledd adlewyrchu amrywiaeth yr anghenion yn yr ardal. Rwy'n byw yn yr Wyddgrug, yn y dwyrain, ond mi fydda i'n Gomisiynydd ar gyfer pob rhan o Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae troseddau gwledig yn broblem a ddylai gael sylw yng Ngogledd Cymru, ond mi fydda i'n blaenoriaethu dau fater arall sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.

Y cyntaf yw troseddau treisgar sy'n effeithio ar ferched a genethod. Fel eich Comisiynydd, mi fydda i'n cyflwyno prosiectau diogelwch cymunedol, a bydd gwneud i ferched a genethod deimlo'n fwy diogel ar draws ein cymunedau yn flaenoriaeth i'r Heddlu. Dylai merched deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac ar nosweithiau allan, a dylai pob merch ifanc allu tyfu i fyny heb ofni bod eu rhywedd yn eu rhoi mewn perygl.

Nid yw'n dderbyniol bod cyfraddau erlyn mor isel ac nad yw merched yn teimlo eu bod yn gallu dirwyn achosion i ben. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu rôl hanfodol a dyletswydd i wneud yn siŵr bod merched a genethod ar draws y rhanbarth yn teimlo bod Gogledd Cymru yn lle diogel.

Mynd i'r afael ag effaith seiberdroseddu yn ein cymuned yw fy ail flaenoriaeth. Sgamiau a mynediad diawdurdod at ddata sy'n cael sylw yn y newyddion ond yn rhy aml rydym yn anghofio am y rhai sy'n cyflawni'r troseddau hyn a'r bobl sy'n cael eu heffeithio. Gan fod gen i brofiad proffesiynol ym maes Diogelu Data, byddaf yn gallu arwain blaenoriaethau yn y maes hwn a rhoi cynlluniau ar waith i helpu i atal y troseddau hyn yn ogystal â helpu dioddefwyr.

Mae pob pleidlais i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr etholiad hwn yn bleidlais i wthio'r blaenoriaethau hyn ymlaen.

Paratowyd yr araith gan Michael O'Carroll (Asiant), yn The Temperance Hall, Tallarn Green, Malpas, SY14 7LL.

### Manylion Cyswllt

E-bost: **richard@richardmarbrow.wales**
Gwefan: **https://www.demrhydd.cymru**

# Datganiad gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr ymgeiswyr hynny (ble a ddarperir) a gwybodaeth arall sy'n ddefnyddiol i bleidleiswyr. Eu cyfrifoldeb hwy yw'r wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr, ac efallai na fydd yn adlewyrchu fy marn i na fy nghyngor.

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, fi sy'n gyfrifol am gydlynu'r etholiad a chyhoeddi'r canlyniad yn Heddlu Gogledd Cymru. Bydd etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal yn

Heddlu Gogledd Cymru ar 2 Mai 2024; yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwnnw, yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw (fel y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio), yw:

- DUNBOBBIN, Andy – Labour and Co-operative Party/Llafur a`r Blaid Gydweithredol
- GRIFFITH, Ann – Plaid Cymru – The Party of Wales
- JONES, Brian – Welsh Conservative Party Candidate/Ymgeisydd Plaid Geidwadol Cymru
- MARBROW, Richard – Welsh Liberal Democrats/Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Gallwch gysylltu â mi yn:

Ian Bancroft
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

https://www.wrecsam.gov.uk/service/etholiadau-presennol-swyddi/etholiad-comisiynydd-yr-heddlu-throseddu-2-mai-2024

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur sydd i gyd wedi'i ailgylchu.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda hwn, cofiwch ei ailgylchu.

*Cyhoeddir hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Phwyllgorau, 2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF*

PCC_Gogledd Cymru_BKT